

Rhif: WG19253



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau drafft Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2013

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2013

Rheoliadau drafft Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2013

Cynulleidfa Llywodraethwyr ysgol, penaethiaid, athrawon, rheolwyr ysgolion, rheiini/gofalwyr, cynrychiolwyr llywodraeth leol ac undebau'r athrawon ac unrhywun arall sydd â diddordeb mewn llywodraethu ysgolion.

Trosolwg Mae'r rheoliadau drafft hyn yn gwneud nifer o newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011 o ganlyniad i adran 94 yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Y Ddeddf") a ddaw i rym ar 4 Mai 2013.

Mae Adran 94 o'r Ddeddf yn galluogi rhieni i ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu eu hysgol, gan ddisodli'r gofyn blaenorol i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod rhieni blynyddol.

O dan y cynigion hyn yr ymgynghorir yn eu cylch byddai gofyn i gorff llywodraethu ysgol gynnwys gwybodaeth benodol yn ymwneud â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni o dan adran 94 o'r Ddeddf, yn ei adroddiad blynyddol i rieni. Mae'r rheoliadau drafft yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i adroddiad blynyddol ei chynnwys.

Camau i'w cymryd Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Dogfennau cysylltiedig Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011 i'w gweld yn www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1939/made

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i'w gweld yn www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/section/94/enacted

Cyflwyniad

O ganlyniad i adran 94 yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Y Ddeddf") a ddaeth i rym ar 4 Mai 2013 mae'r rheoliadau drafft hyn yn gwneud nifer o newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011.

Mae Adran 94 o'r Ddeddf yn galluogi rhieni i ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu eu hysgol, gan ddisodli'r gofyn blaenorol i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod rhieni blynyddol.

O dan y cynigion hyn yr ymgynghorir yn eu cylch byddai gofyn i gorff llywodraethu ysgol gynnwys gwybodaeth benodol yn ymwneud â'l ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni o dan adran 94 o'r Ddeddf, yn ei adroddiad blynyddol i rieni. Mae'r rheoliadau drafft yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i adroddiad blynyddol ei chynnwys.

Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd 19 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gellir dosbarthu'r ymatebwyr fel a ganlyn:

Awdurdodau Lleol/Consortia	5
Undebau	5
Ysgolion	7
Arall gan gynnwys cyrff cynrychiadol	2
2. Roedd 16 (84%) o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r corff llywodraethu gofnodi gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd rhieni o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei adroddiad blynyddol.
3. Roedd 17 (89%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r math o wybodaeth y dylid ei chofnodi am gyfarfodydd rhieni yn yr adroddiadau blynyddol.
4. Roedd 18 (95%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, os yw cyfarfod yn cael ei alw gan rieni ond nid yw'r cyfarfod hwnnw yn cael ei gynnal, y dylid cynnwys datganiad byr yn yr adroddiad blynyddol yn esbonio pam.
5. Roedd 17 (dros 89%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylid cynnwys datganiad byr yn yr adroddiad blynyddol yn nodi nad oedd cyfarfod rhieni wedi'i alw yn ystod y flwyddyn ysgol honno.
6. Cafwyd rhai enghreifftiau lle nad oedd ymatebwyr yn ymddangos eu bod yn gwerthfawrogi'n llawn mai diben y Rheoliadau yw diwygio'r wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol ysgol, er mwyn adlewyrchu darpariaethau adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Er enghraifft, roedd rhai o'r ymatebwyr yn disgwyl eglurhad pellach ar rai agweddau ar y broses o alw cyfarfod a ddarperir gan adran 94 o'r Ddeddf yn y Rheoliadau, gan fod eglurhad o'r fath wedi'i ddarparu eisoes yn y canllawiau statudol i gyrrff llywodraethu ynghylch eu dyletswydd i gynnal cyfarfodydd â rhieni a ddaeth i rym ar 4 Mai.
7. Er bod yr ymatebwyr, ar y cyfan, o blaid y newidiadau i'r broses o gynnal cyfarfodydd rhieni, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am y baich biwrocraidd posibl ar gyrrff llywodraethu. Er enghraifft, roedd un ymatebwr wedi nodi bod yr wybodaeth a oedd angen ei darparu yn rhy fanwl.
8. Roedd rhai ymatebwyr wedi cynnig awgrymiadau sydd y tu hwnt i derfynau'r Rheoliadau hyn. Er enghraifft, roedd un ymatebwr wedi gofyn bod y rheoliadau yn darparu'n benodol na ellir trafod materion "amhriodol" megis materion disgyblu staff/disgyblion mewn cyfarfodydd sydd wedi cael eu galw yn unol ag adran 94, na'u crybwyll yn yr adroddiad blynyddol. Mae Deddf 2013 eisoes yn darparu mai dim ond materion sy'n berthnasol i'r "ysgol" y

gellir eu trafod mewn cyfarfodydd a drefnir yn unol ag adran 94. Mae'r canllawiau statudol yn rhoi eglurhad pellach ar hyn i gyrrff llywodraethu trwy nodi'n glir na ellir trafod materion disgyblu staff/disgyblion yn gallu cael eu trafod.